



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Adroddiad Asesiad Corfforaethol 2015

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Cyhoeddwyd: Ionawr 2016
Cyfeirnod y ddogfen: 683A2015



Cafodd yr Asesiad Corfforaethol hwn ei baratoi ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Steve Barry, Samantha Clements, Catryn Holzinger, Ron Price, Melanie Williams, Avril Watkins, Ena Lloyd a Dyfrig Williams o Swyddfa Archwilio Cymru a Melanie Watson a Matthew Arthur o Bartneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig KPMG UK dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r llywodraeth, a phenodir ef gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni ei waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sef bwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol, ynghyd ag archwilwyr penodedig, yn archwilio cyrff llywodraeth leol Cymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol ac yn asesu'r cydymffurfriad â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'i chyrrff cyhoeddus noddedig a chysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Nod yr Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu adroddiadau cyfatebol sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd a stiwardiaeth adnoddau cyhoeddus ac, yn sgil hyn, yn darparu mewnwelediad a hyrwyddo gwelliant.

Cynnwys

Adroddiad cryno	4
Cynigion ar gyfer Gwella	5
Cyflwyniad	6
Adroddiad manwl	7
Mae'r Cyngor yn datblygu cynlluniau ar gyfer y dyfodol, a chyhyd â bod swyddogaethau TGCh ac adnoddau dynol yn cyd-fynd â'r rhaglen weddnewid, mae mewn sefyllfa dda i sicrhau gwelliant	7
Mae'r Cyngor yn ymgynghori ar themâu strategol allweddol a ddyluniwyd i wella ei ffocws ar weithgareddau blaenoriaethol ar gyfer y dyfodol	8
Mae trefniadau llywodraethu effeithiol ar waith i gefnogi gwelliannau a sbarduno newid	10
Mae trefniadau rheoli perfformiad yn llywio gwelliannau mewn meysydd gwasanaeth allweddol, ond nid yw'r ffordd y caiff gwerthusiadau perfformio eu cyflwyno yn gyson	15
Mae trefniadau cryf ar waith ar gyfer rheoli arian ac asedau, ond mae angen i'r Cyngor ddatblygu ei wasanaethau adnoddau dynol a TGCh er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r agenda gweddnewid	21
Mae'r Cyngor yn cydweithio ar draws ystod eang o weithgareddau ac, er ei fod yn gallu adnabod canlyniadau gwell mewn rhai gweithgareddau, nid yw'n gallu gwerthuso effaith gweithgareddau'r Bwrdd Gwasanaeth Lleol hyd yma	29
Atodiadau	
Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn	31
Atodiad 2 – Llythyr Archwilio Blynyddol	32

Adroddiad cryno

- 1 Yn 2013-14, dechreuodd staff Swyddfa Archwilio Cymru gylchred pedair blynedd o asesiadau corfforaethol o awdurdodau gwella yng Nghymru. Golyga hyn, yn ogystal â'r rhaglen flynyddol o astudiaethau gwella ac archwiliadau o ddulliau gwella cynllunio ac adrodd cynghorau, y bydd pob awdurdod yn cael asesiad corfforaethol unwaith bob pedair blynedd. Yn y blynyddoedd cyfamserol, byddwn yn cadw llygad ar ddatblygiadau trwy ddiweddariadau ar gynnydd.
- 2 Diben yr asesiad corfforaethol yw darparu datganiad sefyllfa o allu a chymhwysedd awdurdod gwella i gyflawni gwelliannau parhaus. Yn ôl ei natur, bydd yn ystyried hanes blaenorol awdurdod o ran perfformio a chanlyniadau yn ogystal ag archwilio'r trefniadau allweddol sydd eu hangen i danategu gwelliannau mewn gwasanaethau a swyddogaethau.
- 3 Canolbwyntiodd ein gwaith maes ar gyfer yr asesiad corfforaethol ar i ba raddau y mae'r trefniadau yn cyfrannu at gyflawni perfformiad a chanlyniadau gwasanaeth gwell i ddinasyddion. Ceisiodd yr asesiad corfforaethol ateb y cwestiwn canlynol: 'A yw'r Cyngor yn gallu cyflenwi ei flaenoriaethau a'i ganlyniadau gwell i ddinasyddion?'
- 4 Daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad bod: Y Cyngor yn datblygu cynlluniau priodol ar gyfer y dyfodol a chyhyd â'i fod yn sicrhau bod swyddogaethau TGCh ac adnoddau dynol yn cyd-fynd â'r rhaglen weddnewid, mae mewn sefyllfa dda i sicrhau gwelliant. Daeth i'r casgliad hwn oherwydd y canlynol:
 - a mae'r Cyngor yn ymgynghori ar themâu strategol allweddol a ddyluniwyd i wella ei ffocws ar weithgareddau blaenoriaethol ar gyfer y dyfodol;
 - b mae trefniadau llywodraethu effeithiol ar waith i gefnogi gwelliannau a sbarduno newid;
 - c mae trefniadau rheoli perfformiad yn llywio gwelliannau mewn meysydd gwasanaeth allweddol, ond nid yw'r ffordd y caiff gwerthusiadau perfformio eu cyflwyno yn gyson;
 - ch mae trefniadau cryf ar waith i reoli arian ac asedau, ond mae angen i'r Cyngor ddatblygu ei wasanaethau adnoddau dynol a TGCh er mwyn iddynt gyd-fynd â'r agenda gweddnewid; ac
 - d mae'r Cyngor yn cydweithio ar draws ystod eang o weithgareddau ac, er ei fod yn gallu adnabod canlyniadau gwell mewn rhai gweithgareddau, nid yw'n gallu gwerthuso effaith gweithgareddau'r Bwrdd Gwasanaeth Lleol (BGLI) hyd yma.

Cynigion ar gyfer Gwella

Cynigion ar gyfer Gwella	
Cyngor y dyfodol	
C1	Sefydlu gweledigaeth y Cyngor ar gyfer 2020 a fydd yn cefnogi dull strategol o ddarparu gwasanaethau ac yn arwain y gwaith o gynllunio gwasanaethau.
Rheoli perfformiad	
C2	Esbonio'r rheswm dros darged gwella a graddfa'r gwelliant a ddisgwylir (Adroddiad Gwella Blynyddol 22 Medi 2015).
C3	Adolygu 'mesurau llwyddiant' i sicrhau eu bod yn galluogi gwerthusiad o'r perfformiad a fwriedir a bod yr esboniad o'r perfformiad yn seiliedig ar y mesur hwnnw. (Adroddiad Gwella Blynyddol 22 Medi 2015).
C4	Sicrhau bod adroddiadau sgorio perfformiad yn nodi'n eglur pa un a yw'r Cyngor wedi cyflawni yr hyn yr oedd yn bwriadu ei gyflawni.
TGCh	
C5	Datblygu'r gwasanaeth TGCh i sicrhau ei fod yn cefnogi agenda gweddnewid y Cyngor.
Adnoddau Dynol	
C6	Datblygu'r gwasanaeth adnoddau dynol, ac yn benodol, cynllunio gweithlu er mwyn cefnogi agenda gweddnewid y Cyngor a sicrhau bod ystyriaethau gweithlu wedi eu hymwreiddio yn y gwaith o gynllunio busnes gwasanaethau.
Rheoli Asedau	
C7	Sicrhau bod y gwaith o gynllunio busnes gwasanaethau yn ystyried gofynion eiddo ar gyfer y dyfodol.
Cydweithio	
C8	Adeiladu ar ddatblygiad cyfredol trefniadau'r Bwrdd Gwasanaeth Lleol trwy fabwysiadu mesurau i werthuso llwyddiant y gweithgareddau cydweithredol allweddol.

Cyflwyniad

- 5 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol adrodd bob blwyddyn ar ba mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt. Mae **Atodiad 1** yn darparu mwy o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol dan y Mesur.
- 6 Yn 2013-14, dechreuodd staff Swyddfa Archwilio Cymru gylchred pedair blynedd o asesiadau corfforaethol o awdurdodau gwella yng Nghymru. Golyga hyn, yn ogystal â'r rhaglen flynyddol o astudiaethau gwella ac archwiliadau o ddulliau gwella cynllunio ac adrodd cynghorau, y bydd pob awdurdod yn cael asesiad corfforaethol unwaith bob pedair blynedd. Yn y blynyddoedd cyfamserol, byddwn yn cadw llygad ar ddatblygiadau trwy ddiweddariadau ar gynnydd.
- 7 Mae'r adroddiad hwn yn nodi a yw'r Archwilydd Cyffredinol yn credu bod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio â gofynion y Mesur. Bydd y farn hon ar "debygoliaeth" yn seiliedig ar waith sydd wedi ei wneud a gwybodaeth gronedig flaenorol, ac felly mae'n adlewyrchu'r perfformiad ar adeg benodol. Ni ddylid ei ystyried fel prawf fod popeth yn iawn am bedair blynedd nac fel rhagfynegiad terfynol o lwyddiant yn y dyfodol. Yn hytrach, dylid ei weld fel asesiad sy'n darparu sicrwydd o ran a yw'r trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd yn gymharol gadarn, cyn belled ag y gellir ei weld o'n gwaith ni a gwaith rheoleiddwyr perthnasol.
- 8 Gan ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor, byddai'n anarferol pe na baem yn dod o hyd i bethau y gellid eu gwella. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gallu:
 - a Gwneud cynigion ar gyfer gwella – rydym yn cyflwyno cynigion o'r fath yn yr adroddiad hwn a byddwn yn dilyn ymlaen o hyn i weld beth fydd yn digwydd.
 - b Gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella – os bydd argymhelliad ffurfiol yn cael ei wneud, rhaid i'r Cyngor baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod. Nid oes gennym unrhyw reswm dros wneud argymhellion o'r fath.
 - c Cynnal archwiliad arbennig a chyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion. Nid oes gennym unrhyw reswm dros wneud archwiliad o'r fath.
 - ch Argymell i Weinidogion Llywodraeth Cymru y dylent ymyrryd mewn rhyw fodd. Nid oes gennym unrhyw reswm dros wneud argymhelliad o'r fath.
- 9 Rydym am ganfod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch gyflwyno'ch barn trwy anfon neges e-bost atom i post@archwilio.cymru neu drwy ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

Adroddiad manwl

Mae'r Cyngor yn datblygu cynlluniau ar gyfer y dyfodol, a chyhyd â bod swyddogaethau TGCh ac adnoddau dynol yn cyd-fynd â'r rhaglen weddnewid, mae mewn sefyllfa dda i sicrhau gwelliant



Mae'r Cyngor yn ymgynghori ar themâu strategol allweddol a ddyluniwyd i wella ei ffocws ar weithgareddau blaenoriaethol yn y dyfodol

- 10 Erbyn 2020, mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd ganddo fwy na thebyg 70 y cant o'i adnoddau cyfredol i ddarparu gwasanaethau. Mae hyn yn seiliedig ar y disgwyliad y bydd ariannu'n parhau i leihau sy'n golygu bod angen i'r Cyngor arbed oddeutu £49 miliwn erbyn 2017-18 ac y bydd mwy o alw, gydag anghenion y defnyddiwr gwasanaethau'n dod yn fwy cymhleth.
- 11 Yn ystod mis Ebrill 2015, cynhaliwyd gweithdai i aelodau etholedig i ddatblygu'r egwyddorion ar gyfer pennu beth ddylai'r Cyngor anelu ato erbyn 2020. Wedi sefydlu'r egwyddorion arweiniol yn ystod y gweithdai hyn, datblygwyd tair thema strategol a'u mabwysiadu gan y Cyngor ym mis Mehefin 2015. Yn ystod mis Awst 2015, cynhaliwyd arolwg staff a digwyddiadau ymgysylltu er mwyn cael barn staff ar yr angen am newid; i bennu pa mor glir oedd y staff am 'ddelwedd' y Cyngor yn y dyfodol, ac ar y themâu strategol arfaethedig.
- 12 Pan oedd yr asesiad hwn yn cael ei baratoi, roedd y Cyngor yn ymgynghori â dinasyddion a rhanddeiliaid eraill ar y tair thema strategol a fyddai'n llywio penderfyniadau ac yn helpu i flaenoriaethu gweithgareddau dros y ddwy i bedair blynedd nesaf:
 - a Cefnogi economi llwyddiannus: cymryd camau i sicrhau bod y sir yn lle da i wneud busnes a sicrhau bod ein hysgolion yn canolbwyntio ar gynyddu sgiliau, cymwysterau ac uchelgeisiau holl bobl ifanc y sir.
 - b Helpu pobl i fod yn fwy hunanddibynnol: cymryd camau cynnar i leihau neu rwystro pobl rhag dod yn agored i niwed neu'n ddibynnol ar y Cyngor a'i wasanaethau.
 - c Defnyddio adnoddau'n fwy craff: sicrhau bod holl adnoddau'r Cyngor (ariannol, ffisegol, dynol a thechnolegol) yn cael eu defnyddio mor effeithiol ac effeithlon â phosibl; a chefnogi datblygiad adnoddau ledled y gymuned a allai helpu i gyflawni gweledigaeth y Cyngor.
- 13 Ni fwriedir i'r themâu strategol ddisodli ffocws y Cyngor ar: amddiffyn ei bobl fwyaf agored i niwed; bod yn atebol yn ariannol ac ystyried gwerth am arian; ystyried cydraddoldeb ac amrywiaeth a rheoli risg. Diben y themâu yw amlygu a blaenoriaethu'r gweithgareddau hynny a fydd yn sbarduno'r newidiadau sydd eu hangen i alluogi'r Cyngor i weithredu'n effeithiol yn y dyfodol.
- 14 Ym mis Medi 2015, gofynnwyd am farn 53 aelod etholedig o'r Cyngor a 53 uwch-reolwr trwy gyfrwng arolwg. Yn ystod mis Hydref 2015, cynhaliwyd cyfarfodydd â grwpiau o aelodau etholedig, rheolwyr a staff gweithredol, yn ogystal â chynnal cyfweiliadau gydag unigolion. Golygai aliniad y blaenoriaethau yn y Cynllun Corfforaethol gyda gweithgareddau'r gwasanaeth fod y mwyafrif yn glir am beth yr oedd y Cyngor yn ceisio ei gyflawni ac roedd cysylltu ag aelodau a staff ynghylch y sefyllfa ariannol yn golygu bod pawb yn glir bod strategaeth arbedion y Cyngor yn angenrheidiol.

- 15 Er gwaethaf yr ymgysylltu a fu gyda phobl i nodi'r tair thema strategol, awgrymodd yr adborth a dderbyniwyd gennym fod llai o eglurder am 'ddelwedd' y Cyngor yn y dyfodol ac, yn fwy penodol, beth yn union yr oedd hyn yn ei olygu ar gyfer cynllunio a chyflawni'r gwasanaeth. Er enghraifft, dangoswyd hyn gan rai ymatebwyr yn cynnig safbwynt a oedd yn cyfeirio at ddelwedd fwy negyddol o'r Cyngor yn gweithio tuag at dorri 30 y cant ar gyllid gwasanaethau yn hytrach na cheisio ymateb i anghenion lleol gan ddefnyddio'r 70 y cant o'r adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd.
- 16 Gwelwyd bod angen 'darlun' mwy clir o sut olwg allai fod ar y Cyngor erbyn 2020, a bwriedir datblygu hyn ymhellach gan ystyried yr adborth a dderbyniwyd o'r ymgynghoriad.

Cynigion ar gyfer Gwella

Cyngor y dyfodol

- C1 Sefydlu gweledigaeth y Cyngor ar gyfer 2020 a fydd yn cefnogi dull strategol o ddarparu gwasanaethau ac yn arwain y gwaith o gynllunio gwasanaethau.

Mae trefniadau llywodraethu effeithiol ar waith i gefnogi gwelliannau a sbarduno newid

Mae trefniadau llywodraethu priodol ar waith i sbarduno newid

- 17 Gan adeiladu ar y gweithdai i bob aelod yn ystod 2015, mae aelodau'r Cabinet yn parhau i fod yn hollol gysylltiedig â datblygiad y weledigaeth newydd ac maent wedi mynd ati'n weithredol i ystyried opsiynau ar gyfer newid, sefydlu cyfeiriad polisi newydd a dulliau cyflenwi eraill. Mae aelodau'r Cabinet a'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol yn gweithio'n agos i ddatblygu'r opsiynau ar gyfer gwaith y Cyngor yn y dyfodol, beth fydd yn ei olygu i wasanaethau penodol ac yn nodi cyfleoedd newydd i ymgysylltu â chymunedau lleol.
- 18 Mae'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol (CRhC) yn cynnwys y Prif Weithredwr, y pedwar Cyfarwyddwr Corfforaethol a'r Prif Weithredwr Cynorthwyol. Ym mis Ionawr 2015, addaswyd cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol a chreodd y Prif Weithredwr dîm Gweddnewid, a dynnwyd o'r Cyfarwyddiaethau, dan arweiniad y Cyfarwyddwr Addysg a Gweddnewid. Bydd y tîm hwn yn:
 - a archwilio ffyrdd arloesol a hyblyg o ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys dulliau comisiynu a gweithio gyda'r Trydydd Sector;
 - b defnyddio asedau a thechnoleg i'r eithaf;
 - c datblygu swyddogaethau datblygu sefydliadol cryfach er mwyn cynyddu sgiliau'r gweithwyr cyfredol a chaniatáu mwy o hyblygrwydd; ac yn
 - ch cyfathrebu'n well â dinasyddion fel eu bod yn deall eu hanghenion yn well ac yn gallu cael gafael ar wybodaeth a, phan fydd angen, gwasanaethau priodol.
- 19 Mae'r BRhC wedi gweld yr angen i ddod â ffrydiau gwaith cyfredol ynghyd er mwyn darparu eglurdeb ynghylch diben y gweithgareddau a sut maen nhw'n alinio gyda'r broses weddnewid. Gwelwyd hefyd fod angen dod o hyd i fwy o gapasiti i weithredu'r rhaglen. Mae'r BRhC wedi bod yn cydbwysu'r defnydd o reolwyr cyfredol â'r sgiliau angenrheidiol gyda'r effaith ar weithgareddau dyddiol, ac mae hefyd wedi recriwtio pobl yn benodol sydd ag arbenigedd nad yw ar gael o fewn y gweithlu cyfredol i weithredu gweithgareddau arbennig.
- 20 Rydym wedi adrodd yn flaenorol ar gryfderau strategaeth ariannol tymor canolig y Cyngor. Mae ystod o brosiectau wedi datblygu o'r strategaeth hon ac yn ystod 2015 gellid nodi ystod o weithgareddau a oedd yn dylanwadu ar newid o dair ffynhonnell, y Strategaeth Ariannol Cyfnod canolig, y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'r prosiectau 'gweddnewid' sy'n dod i'r amlwg. Mae'r prosiectau gweddnewid, a nodir fel y rhai a fydd yn sbarduno newid, yn cael eu casglu ynghyd dan 'Llunio Dyfodol Pen-y-bont ar Ogwr'. Mae prosiectau eraill yn parhau i fod yn bwysig o ran cyflawni targedau arbedion a gwella effeithlonrwydd gweithredol.

Arddangosyn 1: Cyflawni newid

Mae 'Llunio Dyfodol Pen-y-bont ar Ogwr' yn darparu strwythur ar gyfer cyflawni prosiectau gweddnewid sy'n cyd-fynd â'r tair thema strategol.

Llunio Dyfodol Pen-y-bont ar Ogwr Prosiectau gweddnewid
Cefnogi economi llwyddiannus Rhaglen economi llwyddiannus – gan gynnwys ailddatblygu Rhiw a chynlluniau adfywio gan gynnwys adfer safleoedd Porthcawl, Parc Afon Ewenni a Llynfi. Bargen Ddinesig – datblygiad cynigion gyda chynghorau de-ddwyrain Cymru.
Helpu pobl i fod yn fwy hunanddibynnol Ail-fodelu Gofal Cymdeithasol i Oedolion. Ail-fodelu Gwasanaethau Plant. Rhaglen y Trydydd Sector, gwella ymgysylltiad y trydydd sector; gweithio mewn partneriaeth â chymunedau; Trosglwyddo Asedau Cymunedol; ymgysylltu â chynghorau tref a chymuned.
Defnyddio adnoddau'n ddoethach Rhaglen weddnewid ddigidol – gwella mynediad at wasanaethau. Rhesymoli ystâd y Cyngor – gwaredu asedau; trosglwyddo asedau cymunedol. Rhaglen moderneiddio ysgolion.

- 21 Mae'r BRhC wedi gweld yr angen i sicrhau eglurder ar ddiben y gweithgareddau hyn ac i sicrhau bod gan staff y capasiti i'w cyflawni yn effeithlon. Awgryma ein canfyddiadau bod angen sicrhau cyfathrebu clir gyda phob aelod a staff, yn arbennig o ran modelau cyflenwi newydd posibl a'r effaith ar ffyrdd cyfredol o weithio.
- 22 Ar lefel Gyfarwyddiaeth, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu dulliau gwahanol o gyflenwi gwasanaethau yn y blynyddoedd diwethaf ac wedi cael profiad o ddatblygu safonau cyflenwi a rhoi trefniadau priodol ar waith i graffu ar berfformiad, er enghraifft:
 - a Ers mis Hydref 2015, trosglwyddo gwasanaethau diwylliannol, gan gynnwys llyfrgelloedd, trwy gytundeb partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen Cyf, elusen gyfyngedig drwy warant a ffurfiwyd yn arbennig i'r diben hwn. Bwriedir i'r cytundeb partneriaeth redeg am 20 mlynedd tan 2035 ac mae'n cynnwys mesurau sy'n gysylltiedig â'r tair thema strategol ynghyd â dangosyddion perfformiad.

- b Ers mis Ebrill 2012, contract gyda Greenwich Leisure Ltd. a'i bartner cyflenwi lleol, Halo Leisure Ltd. (elusen gofrestredig a menter gymdeithasol), i reoli canolfannau hamdden a phyllau nofio. Mae gan y contract y potensial i redeg tan 2027 ac mae'n cynnwys buddsoddiad gan Halo/GLL mewn cyfleusterau newydd. Mae trefniadau'r contract yn cynnwys adrodd ar berfformiad yn erbyn pum canlyniad strategol a gytunwyd â'r Cyngor. Caiff adroddiadau perfformio chwarterol eu darparu i'r Cyngor a'u hystyried gan y Pwyllgor Craffu a Throsolwg Cymunedol, Amgylcheddol a Hamdden.
- c Ers 2010, contract gyda chwmni cyfyngedig cyhoeddus Kier Group ar gyfer darparu gwasanaethau casglu ac ailgylchu sbwriel cartref. Mae'r contract yn rhedeg tan 2017 gyda'r opsiwn o'i estyn tan 2024. Caiff adroddiadau perfformio eu darparu i'r Cyngor a'u hystyried gan y Pwyllgor Craffu a Throsolwg Cymunedol, Amgylcheddol a Hamdden.

Mae'r swyddogaethau a'r cyfrifoldebau yn glir ac mae trefniadau effeithiol ar waith i wneud pobl yn atebol

- 23 Mae'r Cyngor yn gweithredu system Arweinydd a Chabinet ac o fewn hon y mae'r Cyngor yn gosod y gyllideb gyffredinol ac yn penodi Arweinydd y Cyngor. Mae'r Arweinydd yn penodi Aelodau'r Cabinet ac yn dyrannu eu portffolios. Mae aelodau unigol y Cabinet yn cytuno ar flaenoriaethau eu portffolios gyda'r Arweinydd ac adolygir y cynnydd yn ystod y flwyddyn. Mae aelodau'r Cabinet sydd â phortffolios 'trawsbynciol' yn cwrdd yn rheolaidd i gydlynu cynlluniau, nodi materion posibl ac i gymryd rhan mewn trafodaethau ar y cyd â Chyfarwyddwyr Corfforaethol.
- 24 Mae'r Cabinet wedi penodi dau Bwyllgor Cabinet i gefnogi penderfyniadau gweithredol a wneir ac i alluogi ymgysylltiad a datblygu dealltwriaeth ehangach o faterion blaenoriaethol. Caiff y Pwyllgor Cabinet Cydraddoldeb ei gadeirio gan yr aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol Plant a Chydraddoldeb. Mae'r Cabinet yn gwahodd 10 aelod etholedig i ymuno â'r pwyllgor hwn sy'n adlewyrchu cydbwysedd gwleidyddol y Cyngor. Caiff y Pwyllgor Cabinet Rhianta Corfforaethol ei gadeirio gan y Dirprwy Arweinydd ac mae'n cynnwys chwe aelod etholedig arall ac un aelod lleyg. Wrth arsylwi cyfarfodydd y Pwyllgor hwn, gwelwyd fod trafodaethau da yn cael eu cynnal ac roedd y fforymau hyn yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at wella.
- 25 Mae'r Cyngor yn dwyn y Prif Weithredwr i gyfrif trwy Banel Trawsbleidiol sy'n cytuno ar ei amcanon personol am y flwyddyn i ddod, a chaiff ei berfformiad yn erbyn yr amcanion hynny ei adrodd i'r Cyngor. Mae'r trefniant yn galluogi aelodau i amlygu materion allweddol a chytuno ar flaenoriaethau perthnasol gyda'r Prif Weithredwr.

- 26 Mae'r Prif Weithredwr yn dwyn Cyfarwyddwyr Corfforaethol a'r Prif Weithredwr Cynorthwyol i gyfrif trwy'r system arfarnu ffurfiol. Yn y gorffennol, mae wedi bod yn gymharol syml i egluro disgwyliadau yng nghyd-destun cyflenwi'r blaenoriaethau gwella o fewn y Cynllun Corfforaethol a'r cyswllt â gweithgareddau'r gyfarwyddiaeth. Mae swyddogion y BRhC wedi cydnabod cydgyfrifoldeb dros reoli'r Cyngor a sbarduno swyddogaethau'r agenda gweddnewid o ran y disgwyliadau hyn ac maent yn cael eu hymgorffori yn eu proses arfarnu.
- 27 Ar 8 Ebrill 2015, cymeradwyodd y Cyngor newidiadau i'r swyddogaeth graffu gyda'r nod o wella effeithlonrwydd trefniadau, gan ystyried blaenoriaethau'r Cyngor a'r gostyngiad yng ngallu'r swyddogion. Mae'r newidiadau allweddol wedi cynnwys:
- a ail-gydbwysu cyfrifoldebau'r pwyllgorau a throsglwyddo'r cyfrifoldeb dros graffu ar berfformiad, cyllideb, cynlluniau busnes a chyflawni'r cynllun corfforaethol i un pwyllgor craffu (gyda darpariaeth i gyfethol aelodau â gwybodaeth arbenigol o bwyllgorau eraill fel y bo angen);
 - b cynllunio gwaith yn well er mwyn sicrhau bod gweithgareddau'n cael eu cydlynu a gwella rheolaeth cyfarfodydd trwy eu strwythuro i alluogi amser ar gyfer gofyn cwestiynau; trafod â'r rhai a wahoddwyd; dod i gasgliadau ac adolygu'r blaenraglen;
 - c cael gwared â'r gofynion ar swyddogion craffu i gynhyrchu adroddiadau eglurhaol, sy'n rhyddhau amser swyddogion ac yn galluogi aelodau i ddatblygu prif lwybrau ymholi eu hunain;
 - ch sefydlu trefniadau ac amllder cyfarfodydd Panel Adolygu a Gwerthuso'r Gyllideb, y Panel Adolygu a Gwerthuso Ymgysylltiad Ysgolion a Phanel Craffu Adolygu a Gwerthuso Fframwaith Adrodd Blynyddol y Gwasanaeth Cymdeithasol ac Adolygu a Gwerthuso'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol; a
 - d threialu prosesau gydag un Pwyllgor Craffu a Throsolwg cyn eu mabwysiadu gan bob un.
- 28 Canfu ein harsylwadau ar gyfarfodydd craffu ystod o nodweddion cadarnhaol:
- a roedd y mwyafrif o'r aelodau yn deall y pwnc yn glir ac yn gofyn cwestiynau heriol priodol;
 - b roedd y swyddogion a fynychodd yn gyfarwydd â'r pwnc ac yn gallu darparu ymatebion perthnasol i gwestiynau; ac
 - c roedd aelodau'n fodlon ag ansawdd y wybodaeth a dderbyniwyd ganddynt ar y cyfan.

- 29 Mae'r Cyngor wedi cymryd camau i sicrhau bod y craffu'n glir a'r wybodaeth yn hygyrch. Caiff blaengynlluniau gwaith eu cyhoeddi ar gyfer pob pwyllgor, mae cofnodion a phapurau ar gael ac mae tudalennau'r pwyllgor yn gyfoes. Roedd y cyfarfodydd a arsylwyd gennym wedi'u rhedeg yn dda, gyda phrosesau ffurfiol ar waith a chadeirio effeithiol yn gyffredinol. Roedd naws y trafodaethau yn adeiladol.

Darperir ystod o gyfleoedd i arfogi aelodau etholedig gyda'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu swyddogaethau'n effeithiol

- 30 Mae'r Cyngor yn ceisio cynorthwyo aelodau i wneud eu gwaith trwy hyfforddiant ac Adolygiadau Datblygu Personol. Mae pob aelod wedi cytuno i wneud adolygiadau datblygu personol a drefnir yn ôl grŵp gwleidyddol. Mae'r Cabinet ac Uwch aelodau eraill yn cynnal adolygiadau cymheiriaid o hyd at chwe aelod 'meinciau cefn' o'u grwpiau gwleidyddol a thrafodir eu hanghenion datblygu personol gyda nhw. Wedi hynny, caiff anghenion datblygu eu diwallu trwy gymysgedd o hyfforddiant, briffio gan aelodau a mentora.
- 31 Mae gweithgareddau ar gael i gynyddu amrywiaeth mewn democratiaeth – ceir hyrwyddwr amrywiaeth, cysgodi adeg etholiad a'r cynllun mentora. Fodd bynnag, nid yw'r gwaith o fonitro cydraddoldeb wedi'i gwblhau.

Mae trefniadau rheoli perfformiad yn llywio gwelliannau mewn meysydd gwasanaeth allweddol, ond nid yw'r ffordd y caiff gwerthusiadau perfformio eu cyflwyno yn gyson

- 32 Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn i bob cyngor adrodd ar gyfres gyffredin o ddangosyddion strategol cenedlaethol (NSIs) er mwyn cymharu'r perfformiad mewn meysydd gwasanaeth allweddol ledled Cymru. Mae deg ar hugain o ddangosyddion strategol cenedlaethol wedi'u gosod sy'n ymdrin â blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru. Mae cyngorau Cymru hefyd wedi mabwysiadu 13 o fesurau atebolrwydd cyhoeddus (PAMS) am eu bod yn adlewyrchu materion o bwysigrwydd lleol fel cymorth i ofalwyr, presenoldeb yn yr ysgol a chyflwr priffyrdd.
- 33 Nid oedd modd gwneud cymariaethau â'r flwyddyn flaenorol yn achos dau ddangosydd. Yn bwysig iawn, gwnaeth y Cyngor welliannau mesuradwy mewn perfformiad yn 2014-15. Dangosir hyn gan welliannau yn y mwyafrif o'r NSIs a'r PAMs, gyda:
- 27 o'r 41 o ddangosyddion wedi gwella;
 - 13 o'r 41 o ddangosyddion wedi'u gwrthod; ac
 - un o'r 41 o ddangoswyr yn aros yr un fath (pan gyflawnwyd y perfformiad gorau posibl gan y Cyngor).
- 34 Gwnaeth perfformiad y Cyngor yn erbyn yr NSIs a'r PAMs hefyd gymharu'n ffafriol ag awdurdodau lleol eraill Cymru. Yn 2014-15, cyflawnodd y Cyngor fwy o ddangosyddion yn y ddau chwarter uchaf nag yn y ddau chwarter isaf, gan gynnwys 31.7 y cant yn y chwarter perfformio uchaf. Perfformiodd y Cyngor yn dda hefyd yn erbyn ei dargedau ei hun, gan gyflawni 27 o'r 39 a osodwyd ganddo. O'r 12 na chawsant eu cyflawni ganddo, gwelwyd gwelliant ym mherfformiad wyth o'r dangosyddion serch hynny.
- 35 Gan ystyried yr NSIs a'r PAMs yng nghyd-destun amcanion gwella'r Cyngor ar gyfer 2014-15, gwelir fod y Cyngor wedi gwneud cynnydd tuag at 'Godi dyheadau a chynyddu cyflawniad addysgol' a 'Gweithio gyda phlant a theuluoedd i fynd i'r afael â phroblemau'n gynnar'. Caiff hyn ei amlygu ymhellach pan ystyrir hefyd yr ystod ehangach o ddangosyddion a gyhoeddwyd ochr yn ochr ag Adroddiad Blynyddol 2014-15 y Cyngor. Yn yr un modd, wrth edrych ar y gyfres ehangach o ddangosyddion, parhau i wella a wnaeth y perfformiad gwirioneddol ar gyfer 'Gweithio gyda'n gilydd i helpu pobl sy'n agored i niwed i aros yn annibynnol'. Gwelwyd cynnydd yn erbyn y mesurau llwyddo allweddol dan 'Gweithio gyda'n gilydd i wneud y defnydd gorau o adnoddau', ond collwyd rhai targedau a oedd yn ymwneud â mesurau perfformio ehangach. Roedd y cynnydd tuag at 'Gweithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael â materion iechyd ac annog ffyrdd iach o fyw' a 'Gweithio gyda'n gilydd i ddatblygu'r economi' yn fwy cymysg.

- 36 Mae'r Cyngor yn rhoi pwyslais clir ar reoli perfformiad, sydd wedi galluogi gwasanaethau a chyfarwyddiaethau i weithio mewn ffordd sy'n gwneud gwella perfformiad yn ganolog i'w gwaith. Yn 2013, adolygodd y Cyngor ei fframwaith rheoli perfformiad corfforaethol, ac yn 2014 adolygodd Swyddfa Archwilio Cymru y trefniadau hynny. Cyhoeddodd ddogfen sy'n diffinio dull y Cyngor, yn esbonio'r swyddogaethau a'r atebolrwydd ac sy'n darparu canllaw i bawb sy'n ymwneud â'r broses. Daeth ein hadolygiad i'r casgliad bod y fframwaith yn rhoi strwythur clir a diamwys i'r ffordd y caiff perfformiad ei asesu a'i reoli, gan gysylltu cynlluniau, strategaeth a meysydd gwasanaeth. Roedd canfyddiadau'r Asesiad Corfforaethol yn cefnogi'r farn hon, gan awgrymu bod y fframwaith wedi parhau i hyrwyddo gwelliant, trwy lwybrau atebolrwydd clir a heriau effeithiol.
- 37 Mae'r fframwaith yn cynnwys cyfarfodydd Asesu Perfformiad Corfforaethol a fynychir gan aelodau o'r Cabinet, y Bwrdd Rheoli Corfforaethol, Penaethiaid Gwasanaethau perthnasol ac fe'u cefnogir gan staff perfformiad corfforaethol a chyllid. Trwy ein gwaith arsylwi blaenorol yn y cyfarfodydd hyn, rydym wedi dod i'r casgliad eu bod yn ffordd effeithiol iawn o ddwyn cyfarwyddiaethau i gyfrif am berfformiad a hwyluso trafodaethau ar draws cyfarwyddiaethau. Mae'r Cyngor yn parhau i ddatblygu'r trefniant hwn ac mae'n bwriadu ehangu'r wybodaeth a gyflwynir yn y cyfarfod hwnnw i gynnwys gwerth am arian, canlyniadau defnyddwyr gwasanaethau, prosesau mewnol a gallu sefydliadol. Dylai hyn alluogi iddo roi mwy o ystyriaeth i ansawdd y perfformiad yng nghyd-destun y blaenoriaethau a'r adnoddau sydd ar gael a hwyluso trafodaeth ar beth a ystyrir yn berfformiad 'derbyniol'. Bydd hyn yn hynod bwysig gan na allai fod yn bosibl i'r Cyngor gynnal cyflymder y gwelliant yn erbyn dangosyddion allweddol o ystyried y gofynion i wneud arbedion a'r pwysau ar y gwasanaeth, nawr ac yn y dyfodol.

Arddangosyn 2: Ymarfer cadarnhaol wrth reoli perfformiad

Mae cyfarfod asesu perfformiad corfforaethol chwarterol y Cyngor yn darparu fforwm ar gyfer gwella perfformiad sy'n canolbwyntio ar ddatrysiadau

Ymarfer Cadarnhaol:

Cynhelir cyfarfodydd Asesu Perfformiad Corfforaethol (APC) bob chwarter.

Mae'r cyfarfodydd yn canolbwyntio ar ddatrysiadau ac yn gyfle i ystyried opsiynau ar gyfer gwella perfformiad gwan gan ddefnyddio arbenigedd aelodau'r Cabinet ac uwch-swyddogion.

Mae'r sesiynau wedi bod yn ffordd effeithiol iawn o ddwyn cyfarwyddiaethau i gyfrif am berfformiad, gan hwyluso trafodaethau ar draws cyfarwyddiaethau a datblygu datrysiadau gwella.

Mae'r Cyngor yn parhau i ddatblygu'r trefniant hwn trwy wella ystod y wybodaeth a ddarperir, er mwyn: profi gwerth am arian, nodi canlyniadau defnyddwyr gwasanaethau, dadansoddi prosesau mewnol ac asesu gallu sefydliadol cyn cyflwyno newid.

Bydd y gwelliant hwn yn galluogi ystyriaeth o ansawdd y perfformiad yng nghydestun y blaenoriaethau a'r adnoddau sydd ar gael ac yn hwyluso trafodaeth ar yr hyn a ystyrir yn lefel 'dderbyniol' o berfformiad ar gyfer y dyfodol.

- 38 Er bod adrodd yn digwydd yn rheolaidd a cheir trosolwg da o berfformiad, gellid cryfhau hyn pe bai'r Cyngor yn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chyflwyno mor gywir a chyson â phosibl. Mae'r Cyngor, fel llawer o rai eraill, yn defnyddio'r system oleuadau traffig ('coch' 'melyn' a 'gwyrdd') i asesu lefelau o lwyddiant neu fethiant. Yn gyffredin, mabwysiadir y system oleuadau traffig fel modd o nodi materion perfformiad yn rhwydd ond ar ôl adolygu adroddiadau i'r Pwyllgor Adnoddau Corfforaethol a Chraffu ar Welliannau ar 22 Medi 2015 a'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2014-15, rydym wedi nodi bod lle i wella'r system. Mae [Arddangosyn 3](#) yn dangos gwahanol ddulliau o ddefnyddio'r goleuadau traffig mewn adroddiadau.

Arddangosyn 3: Goleuadau traffig

Defnyddir nifer o wahanol ddiffiniadau i agweddau ar berfformiad.

Agweddau ar berfformiad	Gwyrdd	Melyn	Coch
Ymrwymiad – gweithgarwch sy'n gysylltiedig â chyflawni amcan gwella	Yr holl gerrig milltir allweddol ar y trywydd iawn. Nid oes rheswm i bryderu	Mae'r rhan fwyaf o'r cerrig milltir allweddol ar y trywydd iawn, ond mae rhai mewn perygl	Ni chyflawnir y rhan fwyaf o'r cerrig milltir allweddol
Dangosydd – data a ddefnyddir i fesur llwyddiant ac mae'n bosibl cymharu mewn cyfnod o dair blynedd	Yn well na'r flwyddyn flaenorol	Yr un fath â'r flwyddyn flaenorol	Yn waeth na'r flwyddyn flaenorol
Dangosydd perfformiad – data a ddefnyddir i fesur llwyddiant yn erbyn targed a osodwyd ar gyfer blwyddyn benodol	Mae perfformiad cystal neu'n well na'r targed	Mae perfformiad yn llai na 10 y cant yn waeth na'r targed	Mae perfformiad 10 y cant neu fwy yn waeth na'r targed
Dangosyddion Perfformiad (Saethau tuediadau)	Mae perfformiad wedi gwella o'i gymharu â'r chwarter hwnnw yn y flwyddyn flaenorol	Nid oes newid mewn perfformiad o'i gymharu â'r chwarter cyfatebol yn y flwyddyn flaenorol	Mae perfformiad wedi dirywio o'i gymharu â'r chwarter cyfatebol yn y flwyddyn flaenorol

- 39 Mae gwaith archwilio blaenorol wedi nodi anghysondebau rhwng y mesurau llwyddiant a'r esboniad o'r perfformiad sy'n cyd-fynd â hwy, yn ogystal ag anghysondebau yng nghymhwysiad y system oleuadau traffig. Nodwyd cynigion gwella yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol a gyhoeddwyd ym mis Medi 2015, sy'n parhau i fod yn berthnasol ac maent wedi eu cynnwys gyda'n cynigion presennol er mwyn hwyluso'r broses o gyfeirio atynt. Mae tystiolaeth yn dal i awgrymu y gallai'r modd o gyflwyno'r wybodaeth am berfformiad fod yn fwy eglur. Un gwelliant syml fyddai sicrhau bod diffiniadau yn cael eu cynnwys ym mhob adroddiad i alluogi'r holl ddarllenwyr, gan gynnwys aelodau o'r cyhoedd, i weld sut y penderfynwyd ar y sgoriau goleuadau traffig.

- 40 Mae system goleuadau traffig y Cyngor ar gyfer dangosyddion perfformiad yn seiliedig ar gyflawni'r targed yn unig. Gall hyn olygu bod dangosyddion yn cael eu neilltuo i'r un golau traffig, ond byddai gwybodaeth fwy manwl am y cyd-destun yn amlygu gwahaniaethau pwysig. Mae'r cyngor yn darparu sylwadau a saeth tueddiad, ond gallai gwybodaeth fel safleoedd cenedlaethol a thargedau blaenorol fod yn ddefnyddiol hefyd o ran rhoi darlun mwy cywir o berfformiad i'r darllynydd.
- 41 Er enghraifft, neilltuwyd y ddau ddangosydd perfformiad canlynol i'r lliw 'melyn';
- a Roedd perfformiad 'Canran yr oedolion 60 oed neu hŷn sydd â cherdyn teithio rhatach' yn is na'r targed ond roedd wedi gwella o'i gymharu â pherfformiad y flwyddyn flaenorol. Roedd y targed yn uwch na'r flwyddyn flaenorol a gwellwyd y safle Cymru gyfan o 7fed i 6ed.
 - b Roedd perfformiad 'Canran yr ymweliadau statudol â Phlant sy'n Derbyn Gofal sydd i fod i gael eu cynnal yn ystod y flwyddyn a gynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau' yn is na'r targed ond roedd yn well na pherfformiad y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, roedd y Cyngor yn 21ain safle yn 2013-14 ac yn 20fed yn 2014-15.
- 42 Mae perfformiad yn y ddau faes hyn yn wahanol iawn ond mae perygl y gallai darllenwyr ddibynnu ar y statws goleuadau traffig i amlygu materion, yn enwedig pan fo llawer iawn o wybodaeth i'w phrosesu yn yr adroddiad. Dylai sicrhau bod digon o wybodaeth am y cyd-destun fod o gymorth i sicrhau nad yw mân wahaniaethau'r wybodaeth am berfformiad yn cael eu cuddio.
- 43 Hefyd, ceir rhai enghreifftiau o werthuso 'ymrwymadau' pryd y gellid cwestiynu'r goleuadau traffig, yn seiliedig ar y dystiolaeth a ddarparwyd. Er enghraifft:
- a Cafodd 'Adolygu Polisi Adnewyddu Tai'r Sector Preifat ac Addasiadau i'r Anabl er mwyn sicrhau ei fod yn diwallu anghenion ac yn darparu gwerth am arian' – ei neilltuo i'r lliw 'melyn' er gwaethaf y ffaith na chafodd y polisi ei adolygu, ac ni chafodd ei werth am arian ei asesu, fel y bwriadwyd. O ystyried y methwyd y cerrig milltir allweddol hyn mae'n ymddangos y byddai 'coch' wedi bod yn fwy priodol. Er bod gwybodaeth wedi ei chynnwys ynglŷn â'r Grant Cymorth Tai Iach, nid yw'n berthnasol i fanylion yr ymrwymiad.
 - b Neilltuwyd 'Gwella'r cysylltiadau trafndiaeth, cysylltiadau ar gyfer cerddwyr a beicwyr rhwng y rhwydwaith bysiau a rheilffordd a safleoedd cyflogaeth' – i'r lliw 'gwyrd', er bod y disgrifiad o weithgarwch yn berthnasol i'r adolygiad o'r gwasanaethau bws a thrafodaethau parhaus gyda Network Rail. Nid oes cyfeiriad at gysylltiadau cerddwyr na beicwyr nac, yn fwy cyffredinol, at welliannau mewn trafndiaeth. Yn groes i hyn, mae dystiolaeth yn erbyn yr un ymrwymiad yn yr adroddiad blynyddol yn ymwneud â gwella'r isadeiledd i gerddwyr a beicwyr, yn ogystal â chyfeirio at leihau'r gwasanaethau bysiau (ond i ysgolion nid safleoedd gwaith). Er gwaethaf y dystiolaeth ychwanegol, neilltuwyd yr ymrwymiad i 'felyn' yn yr adroddiad hwnnw.

- c Cafodd 'Parhau i weithio â phartneriaid i liniaru effeithiau Diwygiadau Lles Llywodraeth y DU' – ei neilltuo i'r lliw 'gwyrdd', ond y prosiect 'Dewch Ar-lein Pen-y-bont' yn unig a nodir yn y disgrifiad ac nid unrhyw weithgarwch ehangach i liniaru effeithiau diwygio lles. (Adroddiad Blynyddol 2014-15).
- 44 Pan fo ymrwymadau'n ymddangos yn ehangach na'r dystiolaeth o gynnydd a ddarparwyd yn eu herbyn, mae'n awgrymu na chafodd yr ymrwymiad ei ddiffinio'n ddigonol neu ei fod wedi ei gyflawni'n rhannol yn unig. Bydd sicrhau bod ymrwymadau'n diffinio paramedrau llwyddiant a bod y dystiolaeth yn adlewyrchu hynny yn cynorthwyo darllenwyr mewnol ac allanol i werthuso cynnydd yn rhwydd.
- 45 Yn ogystal â hyn, mae rhai anghysondebau yn y system oleuadau traffig a ddefnyddir ar yr un ymrwymadau mewn adroddiadau gwahanol. Yn benodol, gwelwyd tair enghraifft a oedd â lliw goleuadau traffig gwyrdd yn adroddiad yr Adnoddau a Gwelliannau Corfforaethol a oedd yn felyn yn Adroddiad Blynyddol 2014-15 ac un enghraifft a oedd â lliw coch yn adroddiad yr Adnoddau a Gwelliannau Corfforaethol ac a oedd yn felyn yn yr Adroddiad Blynyddol. Er y gallai fod rhesymau dros pam fod angen newid lliwiau'r goleuadau traffig a bennwyd, dylai'r wybodaeth a gyflwynir i'r aelodau i'w chraffu fod yr un peth â'r hyn a gyhoeddir i'r cyhoedd, cyn belled â phosibl.
- 46 O ystyried y cyfan o'r uchod, gallai'r Cyngor ddatblygu ei fframwaith rheoli perfformiad effeithiol a'i ddiwylliant trwy barhau i fireinio'r modd o gyflwyno wybodaeth am berfformiad. Yn rhan o hyn, dylid rhoi ystyriaeth hefyd i sut y gellid cyfochri wybodaeth am ddangosyddion perfformiad ac ymrwymadau. Mae'r Cyngor yn ailddatblygu'r wybodaeth a gyflwynir i'r Asesiad Perfformiad Corfforaethol ar hyn o bryd, gallai'r Cyngor sicrhau bod adroddiad y dangosfwrdd yn cysylltu gweithgarwch a chanlyniadau (gan gynnwys mesurau gwerth am arian a chanlyniadau defnyddwyr gwasanaeth). Mae potensial y gallai'r fformat hwn hefyd fodloni anghenion craffu, a fyddai'n sicrhau cysondeb ac ansawdd y wybodaeth sy'n cael ei hasesu ac y craffir arni.

Cynigion ar gyfer Gwella

Rheoli perfformiad

- C2 Esbonio'r rheswm am darged gwella a graddfa'r gwelliant a ddisgwylir (Adroddiad Gwella Blynyddol 22 Medi 2015).
- C3 Adolygu 'mesurau llwyddiant' i sicrhau eu bod yn galluogi gwerthusiad o'r perfformiad a fwriedir a bod yr esboniad o'r perfformiad yn seiliedig ar y mesur hwnnw. (Adroddiad Gwella Blynyddol 22 Medi 2015).
- C4 Sicrhau bod adroddiadau sgorio perfformiad yn nodi'n eglur pa un a yw'r Cyngor wedi cyflawni'r hyn y bwriadwyd ei gyflawni.

Mae trefniadau cryf ar waith ar gyfer rheoli arian ac asedau, ond mae angen i'r Cyngor ddatblygu ei wasanaethau adnoddau dynol a TGCh er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r agenda gweddnewid

Er bod y Cyngor yn wynebu heriau ariannol sylweddol, mae ei drefniadau cyfredol ar gyfer cyflawni sicrwydd ariannol yn gadarn

- 47 Disgwylir y bydd cynghorau'n parhau i wynebu llai o arian yn y dyfodol agos. Mae'r Cyngor wedi cyfrifo y bydd y gostyngiadau blynyddol o 4.5 y cant yn golygu y bydd angen iddo leihau'r gyllideb refeniw £49.592 miliwn rhwng y cyfnodau 2016-17 i 2019-20. Mae eisoes wedi darganfod arbedion o £23.639 miliwn ac ym mis Gorffennaf 2015, canfuwyd bod angen dod o hyd i £25.953 miliwn arall.
- 48 Mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (SATC) yn cael ei hadolygu a'i diweddarau'n rheolaidd ac mae'n cynnwys holl weithgareddau'r gwasanaeth, gan alluogi cyswllt rhwng penderfyniadau strategaeth ariannol a darparu gwasanaeth. Mae fframwaith y Cyngor yn clymu cyflawniad amcanion corfforaethol a chynllunio ariannol. Yn ystod 2014-15, rhoddodd y Cyngor brosiect ar waith i gysylltu cyflawniadau pob amcan gwella â'r cyfrifylfr ariannol; mae hyn yn hwyluso'r gwaith o fonitro agweddau ariannol pob amcan o un flwyddyn i'r llall.
- 49 Mae'r broses fisol o fonitro'r gyllideb a fabwysiadwyd gan y BRhC yn galluogi'r Cyngor i gynllunio arian yn effeithiol a rheoli risgiau ariannol. Ymgysylltir ag aelodau etholedig trwy adroddiadau chwarterol a'r cyfarfodydd Asesu Perfformiad Corfforaethol gyda chyfarwyddwyr, sy'n cynnwys asesiad o risgiau ariannol. Yn ogystal â hyn, mae'r Cyfarwyddwr Adnoddau yn cael cyfarfodydd misol gyda'r Penaethiaid Gwasanaeth i asesu'r perfformiad yn erbyn y gyllideb ac i nodi risgiau i'r gyllideb. Caiff y risgiau eu pasio ymlaen i'r Gofrestr Risg Corfforaethol os bydd angen.
- 50 Mae'r Cyngor yn mynd ati i ragfynegi mewn modd darbodus. Er bod y SATC yn cynnwys senarios 'gwaethaf', 'gorau' a 'mwyaf tebygol' ar gyfer y gofyniad i leihau'r gyllideb net, mae'r rhan fwyaf o'r manylion a adroddir i'r Cyngor yn canolbwyntio ar y senarios 'mwyaf tebygol'. Mae'r Cyngor yn defnyddio'i ddoethineb wrth wneud tybiaethau am y senario hwn, er enghraifft, trwy dybio lleihad o 4.5 y cant mewn cyllid allanol.
- 51 Caiff cynigion i wneud arbedion eu nodi ar ddogfen dempled, sy'n gofyn am asesiad risg, asesiad effaith, a chysylltiad rhwng effaith y cynnig i wneud arbedion â'r amcan gwella gan sicrhau, trwy hynny, bod cydlynid rhwng y ddau.
- 52 Mae gan y Cyngor nifer o bolisiau i gefnogi'r gwaith o reoli ei gyllid, gan gynnwys rheolau trefniadau ariannol sy'n amlinellu cyfrifoldebau'r Aelodau, y Swyddogion a deiliaid y gyllideb yn glir. Ar hyn o bryd, y Cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am fonitro'r gyllideb o fewn eu Cyfarwyddiaethau eu hunain, ond yn ymarferol, caiff hyn ei ddirprwyo'n anffurfiol i Benaethiaid y Gwasanaeth, Rheolwyr Grŵp ac, ar brydiau, Rheolwyr Gwasanaethau. Fodd bynnag, disgwylir i hyn newid erbyn 1 Ebrill 2016,

pan gyflwynir cyfrifoldebau rheoli ariannol wedi'u dirprwyo islaw lefel Cyfarwyddwr. Bydd y rhain yn cael eu cyflwyno ochr yn ochr â hyfforddiant ariannol, a diweddariad o'r System Gynllunio Gydweithredol. Offeryn meddalwedd ariannol yw hwn sy'n galluogi Cyfarwyddiaethau i ymgymryd â mwy o weithgareddau rheoli ariannol, gan wella eu mynediad i wybodaeth ariannol, yn ogystal â chreu arbedion effeithlonrwydd o fewn yr adran Gyllid ganolog. O ganlyniad i oedi cyn bod meddalwedd ar gael rhwystrowyd y Cyngor rhag cyflwyno'r newidiadau hyn yn ystod 2014-15.

- 53 Mae rheolaeth ariannol effeithiol dros gronfeydd yn hanfodol i reolaeth ariannol gynaliadwy. Yn 2014-15, mabwysiadodd y Cyngor Brotocol newydd ar gyfer ei Gronfeydd a'i Falansau. Ers sawl blwyddyn bellach, mae'r Cyngor wedi cadw at bolisi o gynnal arian y Gronfa Gyffredinol ar £7 miliwn. Mae'r Protocol newydd yn datblygu hyn trwy ddarparu cyfiawnhad clir dros greu a chynnal cronfeydd. Yn ogystal â hyn, mae'r Protocol yn amlinellu egwyddorion pwysig, fel sut i asesu digonolrwydd y cronfeydd, y rhesymeg y tu ôl i sefydlu cronfeydd, monitro'r cronfeydd, perthnasedd asesiad risg ym mhob penderfyniad sy'n ymwneud â chronfeydd, ac mae'n cynnwys rhagolwg ar gyfer cronfeydd a glustnodwyd. Mae'r Protocol hwn yn welliant sylweddol yng ngweithdrefnau rheoli ariannol y Cyngor. Hefyd, mae'r Cyngor yn gallu adrodd ar drosglwyddiadau a wneir i gronfeydd, o gronfeydd neu rhyngddynt yn ystod y tair blynedd a ddaeth i ben yn 2014-15. Nododd ein hadolygiad fod yr adrodd hwn yn fwy cadarn ac yn fwy eglur yn 2014-15 nag y bu yn y blynyddoedd blaenorol, sydd eto, yn adlewyrchu'r gwelliannau a wnaed yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.
- 54 Golyga'r heriau cyllidebol bod angen i'r Cyngor ystyried cyfleoedd i leihau costau posibl a chyfleoedd i gynhyrchu incwm (gan gynnwys codi tâl). Er enghraifft, gyda'r nod o gadw gwasanaethau am lai o gost, mae'r Cyngor eisoes wedi mabwysiadu dulliau cyflenwi gwahanol, fel y disgrifiwyd yn flaenorol yn yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, nid yw cofrestr taliadau'r Cyngor wedi ei diweddarau ers 2013.
- 55 Cyfarwyddiaethau unigol sy'n gyfrifol am weithdrefnau incwm a chodi tâl ar hyn o bryd. Mae'r Cyngor wedi gweld yr angen am ddull mwy strategol ac wedi cynnal arolwg sy'n archwilio dulliau'r Gyfarwyddiaeth. Un o'r amcanion yw annog Cyfarwyddiaethau i ystyried cyfeiriadau strategol newydd, fel darparu gwasanaethau proffesiynol y tu allan i sefydliadau, er enghraifft, gwasanaethau Adnoddau Dynol, gwasanaethau ariannol neu gyngor ar eiddo. Rydym wedi cael gwybod bod swyddogion wrthi'n paratoi polisi corfforaethol ar gyfer cynhyrchu incwm a chodi tâl, a bwriedir ei gyflwyno i'r Cyngor ym mis Mawrth 2016. Mae ein hadolygiad o'r ddogfen ddrafft yn cadarnhau ei fod yn cynnwys egwyddorion cynhyrchu incwm a chodi tâl perthnasol, a chyingor ar bryd i godi tâl a faint y dylid ei godi, er mwyn sicrhau ei fod yn deg, yn gyson a bod prisiau rhatach yn cael eu cynnig lle bo'n briodol.

Mae'r gwasanaeth TGCh yn cefnogi'r gwaith o gyflawni gweithrediadau'r Cyngor ond nid yw'n cyd-fynd yn ddigonol â'r agenda gwednewid

- 56 Roedd Strategaeth TGCh diweddaraf y Cyngor yn rhedeg o fis Ebrill 2012 tan fis Mawrth 2015. Aliniwyd y strategaeth i gefnogi cyfeiriad strategol y Cyngor. Pan gynhaliwyd yr asesiad hwn, roedd strategaeth newydd ar fin cael ei drafftio. Golyga absenoldeb strategaeth sy'n rhoi gweledigaeth glir o natur TGCh fel gwasanaeth ar gyfer y dyfodol ac sydd wedi'i halinio â rhaglen weddnewid y Cyngor bod ffocws y gwasanaeth ar y prosesau a'r gweithrediadau cyfredol yn hytrach nag ar ddatblygu gwasanaethau.
- 57 Yn ystod haf 2015, roedd y Cyngor wedi hysbysebu chwe swydd wag ar gyfer staff TGCh. Pan gynhaliwyd yr asesiad hwn, dim ond dwy swydd yr oedd y Cyngor wedi llwyddo i'w llenwi, felly roedd y Cyngor yn gweithredu gyda llai o bobl, a heb yr ystod lawn o sgiliau yr oedd wedi eu nodi fel rhai angenrheidiol. Serch y prinder adnoddau, canfuwyd bod staff y gwasanaeth TGCh yn cefnogi cydweithwyr ac yn sicrhau bod gwasanaeth yn parhau wrth i staff symud swyddfa, ond, golygai hyn nad oedd llawer o gapasiti yn yr adran i nodi a datblygu cyfleoedd i foderneiddio a gwella.
- 58 Mae'r Cyngor yn tanysgrifio i SOCITM, sef y corff rhwydweithio sy'n cynrychioli gweithwyr proffesiynol sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus drwy ddefnyddio technoleg gwybodaeth ddigidol yn effeithiol. Ymhlith ei wasanaethau, mae SOCITM yn asesu perfformiad gwefan Cyngorau ac yn darparu sgôr seren – gyda'r sgôr isaf yn un seren a'r sgôr uchaf yn 4 seren o ran perfformiad i ddinasyddion. Yn 2014, rhoddwyd un seren i wefan y Cyngor.
- 59 Cydnabyddir yr angen am welliant ac mae Rhaglen Weddnewid Ddigidol y Cyngor yn anelu at wella mynediad i wasanaethau a lleihau costau gweithredu trwy alluogi dinasyddion i wneud amrywiaeth o drafodion ar-lein. Fodd bynnag, pan gynhaliwyd yr asesiad, gwelwyd hefyd fod yr adnoddau a oedd ar gael i staff i reoli'r anghenion gwasanaeth cyfredol eisoes yn wynebu heriau oherwydd y swyddi gwag, gan olygu bod y cyflymder yr eir ati i ddatblygu trefniadau newydd yn debygol o ddiodef. Roedd y BRhC wrthi'n datblygu opsiynau ar gyfer rhoi gwelliannau ar waith ar adeg yr asesiad.
- 60 Caiff risgiau TGCh eu hadrodd a'u rheoli trwy'r Bwrdd Llywodraethu Gwybodaeth. Pan gynhaliwyd yr asesiad, nid oedd gan y Cyngor gofrestr risg TGCh i fonitro a rheoli risgiau TGCh yn benodol. Roedd hyn yn golygu nad oedd unrhyw gofnod clir o risgiau TGCh, felly nid oedd modd monitro'n effeithiol effaith y risgiau TGCh ar y sefydliad na'r gwasanaethau, y camau y mae'r adran TGCh yn eu cymryd i leihau neu ddatrys y risgiau, na'r cyswllt rhwng y risgiau TGCh a nodwyd â'r Gofrestr Risg Gorfforaethol, ac nid oedd modd mesur a dangos y cynnydd a wneir. Mae'r Cyngor bellach wedi sefydlu cofrestr risg TGCh.

Cynigion ar gyfer Gwella

TGCh

C5 Datblygu'r gwasanaeth TGCh i sicrhau ei fod yn cefnogi agenda gweddnewid y Cyngor.

Mae'r gwasanaeth Adnoddau Dynol yn cefnogi'r gwaith o gyflawni gweithrediadau'r Cyngor ond nid yw'n cyd-fynd yn ddigonol â'r agenda gweddnewid a darpariaeth gwasanaethau'r Cyngor yn y dyfodol

- 61 Ar lefel weithredol, canfuom fod gan y Cyngor ystod o bolisiau a gweithdrefnau y byddem yn disgwyl eu gweld ar waith. Roedd hyn yn cynnwys Cynllun Gweithlu, yn ogystal â disgrifiadau swydd a gefnogwyd gan fanyleb person (gan gynnwys gofynion sgiliau/gwybodaeth a'r dull asesu).
- 62 Mae'r Cynllun Gweithlu yn ymdrin â'r cyfnod rhwng 2015 a 2018-19 ac yn adlewyrchu'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig trwy nodi bod 50 y cant o'r arbedion arfaethedig yn debygol o gael eu cyflawni trwy leihau gweithlu'r Cyngor. Mae'r Cynllun yn darparu dadansoddiad defnyddiol o weithlu'r Cyngor, ond nid yw'n gwneud cysylltiad â'r gweithrediad ar lefel cyfarwyddiaeth/gwasanaeth fel bod y gwaith o gynllunio'r gweithlu yn cael ei integreiddio â chynllunio'r gwasanaeth.
- 63 Er bod y Cynllun Gweithlu yn rhagweld y bydd nifer y staff yn gostwng dros amser, nid yw hyn wedi'i gynllunio eto. Mae'r Cyngor wedi cydnabod bod angen sgiliau newydd ar y gweithlu ac wedi ymateb trwy ddefnyddio'r sgiliau cyfredol (trwy adleoli staff os bydd angen) neu drwy recriwtio mewn meysydd arbenigol fel gwaredu asedau. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor wedi cynllunio faint o staff a sgiliau fydd eu hangen ar draws y Cyngor wrth fynd ymlaen, sy'n gysylltiedig ag adolygu gwasanaethau a newidiadau eraill arfaethedig i'r sefydliad. Mae hyn yn cynnwys sefydlu disgwyliadau eglur o swyddogaeth yr AD corfforaethol a'r cyfrifoldebau hynny sydd gan reolwyr gwasanaeth o ran AD.
- 64 Mae'r Cyngor wedi wynebu heriau sylweddol mewn rhai meysydd gwasanaeth wrth geisio recriwtio staff ac mae wedi bod yn datblygu ffyrdd o ddenu a chadw staff yn y gwasanaethau hyn.
- 65 Dengys y data o'r blynyddoedd diwethaf leihad cyffredinol yn y gweithlu sydd wedi dod yn sgil cyfuniad o gael cyflenwyr allanol i wneud swyddogaethau arbennig a phroses ddiswyddo gwirfoddol. Yn 2014-15, cafodd cyfanswm o 117 o weithwyr eu diswyddo, gyda 38 yn wirfoddol a 79 yn orfodol.

- 66 Ar hyn o bryd, nid yw'r Cyngor yn rheoli swyddi gwag gyda'r nod o gysylltu swyddi gwag a ragwelir gyda'r garfan o staff a fydd yn cael eu heffeithio gan y newidiadau i'r dulliau cyflenwi neu leihau gwasanaethau. Dengys data gweithlu'r Cyngor hefyd nad oes ganddo hanner digon o gynrychiolaeth yn y grŵp oedran 16 i 25 ac ychydig iawn o brentisiaethau sydd ganddo (12 hyd yma). Ni chyfeirir ddigon at gynllunio ar gyfer olyniaeth na'r ffordd y gallai'r Cyngor recriwtio er mwyn sefydlu ei weithlu ar gyfer y dyfodol.
- 67 Mae gan y Cyngor system arfarnu ar waith ac mae'n cydnabod fod angen iddo symud o ddull sy'n pennu nifer yr arfarniadau a gynhelir i ddull sy'n ei fodloni bod y broses wedi arwain at nodi a diwallu anghenion datblygu. Cafwyd barn gymysg gan y staff ar y broses arfarnu - er i bawb y siaradwyd â nhw gadarnhau eu bod yn ymwneud â'r broses, roedd rhai o'r farn fod y broses yn arwain at gymorth yn gyffredinol (yn arbennig os oedd yn angenrheidiol i ddiogelu gwelliannau arfaethedig) tra bod eraill yn credu bod y system yn anhyblyg a bod cyfyngiadau cyllidebol yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddatblygu sgiliau.
- 68 Mae gwella'r rheolaeth o absenoldebau salwch wedi ei nodi fel blaenoriaeth gorfforaethol allweddol ac fel blaenoriaeth i'r Prif Weithredwr. Mae'r gwasanaeth AD wedi darparu dulliau o reoli absenoldebau er mwyn cynorthwyo rheolwyr gweithredol i weithredu polisi'r Cyngor. Tynnir sylw at y gwaith o reoli absenoldebau salwch yn nhrefnadaethau aelodau'r Cabinet gyda'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol ac yn nhimau rheoli'r cyfarwyddiaethau.
- 69 Pan gynhaliwyd yr asesiad, roedd y Prif Weithredwr yn aros am adroddiad gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a oedd yn adolygu dull cipio data, polisiâu a gweithdrefnau'r Cyngor er mwyn nodi meysydd posibl y gellid eu gwella.
- 70 Mae gan y Cyngor amrywiaeth o ddata ar absenoldeb salwch ac, ar lefel Cyfarwyddiaeth, mae timau rheoli yn ceisio canolbwyntio ar eu materion penodol hwy. Fodd bynnag, er bod y mwyafrif o'r rhai y buom yn siarad â nhw'n gwerthfawrogi'r angen i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud ag absenoldeb salwch, mynegwyd pryder ynghylch y dulliau anghyson sy'n cael eu mabwysiadu ar ôl i'r gweithiwr ddychwelyd i'r gwaith, yn ogystal ag anghysondeb o ran mynd i'r afael â staff sy'n adrodd absenoldeb oherwydd salwch, yn arbennig o ran cydymffurfio â'r canllawiau, gan ganiatáu i aelod o staff ofyn am ddiwrnod o wyliau blynyddol ar ddiwrnod cyntaf yr absenoldeb salwch.

Cynnig ar gyfer Gwella

Adnoddau Dynol

- C6 Datblygu'r gwasanaeth adnoddau dynol, ac yn benodol, cynllunio gweithlu er mwyn cefnogi agenda gweddnewid y Cyngor a sicrhau bod ystyriaethau gweithlu wedi eu hymwreiddio yn y gwaith o gynllunio busnes gwasanaethau.

Mae gan y Cyngor ddull effeithiol o reoli asedau corfforaethol ac mae ar y trywydd iawn i gyflawni ei nodau hirdymor

- 71 Mae gan y Cyngor gynllun strategol (y Cynllun) ar waith ar gyfer ei dir a'i adeiladau a ddatblygwyd yn 2006 ac a fydd yn berthnasol hyd at 2021. Y weledigaeth ar gyfer eiddo yw 'cael ystâd fach, gynaliadwy sy'n cefnogi darpariaeth 'Gwasanaethau Lleol Gorau Cymru' ac sy'n galluogi'r Cyngor i fyw o fewn ei fodd'. Cefnogir y weledigaeth hon gan bum amcan:
- a Cadw portffolio eiddo cynaliadwy 'darbodus' sy'n galluogi Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (CBSP) i fyw o fewn ei fodd.
 - b Eiddo addas i'w ddiben i gefnogi darpariaeth Gwasanaethau Lleol Gorau Cymru – gan sicrhau bod datrysiadau eiddo yn addas i'r gwasanaeth ac i anghenion cwsmeriaid.
 - c Cyflawni Prosiectau Cyfalaf yn effeithiol ac yn effeithlon.
 - ch Cael yr elw mwyaf posibl o'r ystâd anweithredol.
 - d Gwelliant parhaus trwy Reoli Perfformiad.
- 72 Cefnogir y gwaith o gyflawni'r Cynllun gan strwythurau sy'n darparu ar gyfer penderfyniadau eiddo corfforaethol effeithiol. Mae'r Grŵp Gwasanaethau Cysylltu Cymunedau Cryf (GCCC) yn darparu heriau a chyfleoedd strategol i gael cynrychiolaeth o bartneriaid BGLI. Mae'r Grŵp Eiddo Corfforaethol (GEC) yn fforwm sy'n canolbwyntio ar weithredoedd. Er enghraifft, mae gwneud y mwyaf o fannau gwag a thechnoleg, rhyddhau asedau a gwaith cyfalaf bach yn eitemau agenda a gwahoddir pob cyfarwyddiaeth i gael cynrychiolaeth ar y grŵp. Mae hefyd gweithgor eiddo anweithredol a gweithgor gwella portffolio sy'n cysylltu â'r GEC pan fydd angen.
- 73 Mae Cynlluniau Busnes Gwasanaeth yn ffurfio rhan allweddol o drefniadau cyflenwi'r Cyngor. Mae templed pob cynllun yn cynnwys adran ar adnoddau ar gyfer cyllid a staffio, ond nid yw'n cyfeirio at ofynion eiddo nac at sut mae pob gwasanaeth yn bwriadu buddsoddi neu wario yn ei bortffolio yn y dyfodol. Gan ystyried cyflymder cyfredol y gweithgareddau, bydd angen i'r Cyngor sicrhau bod y gwaith o gynllunio busnes gwasanaeth yn cynnwys ystyriaeth i ofynion eiddo yn y dyfodol fel ei fod yn gallu cynnal ei ddull rheoli asedau'n effeithiol.
- 74 Mae gan ysgolion Gynllun Rheoli Asedau Gwasanaeth manwl sydd wedi ei warantu yn rhinwedd maint y portffolio sy'n cynnwys 60 y cant o holl bortffolio eiddo'r Cyngor. Yn ddiweddar, trosglwyddwyd y tîm moderneiddio ysgolion o'r gyfarwyddiaeth Plant i'r tîm Eiddo canolog er mwyn dwyn ynghyd weithwyr eiddo proffesiynol a gwella'r cysylltiad rhwng rheolwyr ystâd ysgolion a gweithwyr eiddo proffesiynol canolog. Mae'r tîm yn adrodd i reolwr eiddo'r grŵp ac mae'n gyfrifol am oruchwylio'r gwaith o gyflawni'r rhaglen gwella ysgolion.

- 75 Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran rhesymoli ei bortffolio eiddo ers mabwysiadu'r Cynllun Rheoli Asedau yn 2009:
- a rhyddhau dros 60 o asedau dros ben;
 - b lleihau'r ôl-groniad cynnal a chadw o thua £8 miliwn;
 - c cynhyrchu incwm blynyddol o £1.8 miliwn ar gyfartaledd;
 - ch cynhyrchu dros £2.5 miliwn o elwau cyfalaf yn ogystal â £4 miliwn o incwm o werthiannau asedau yn 2014-15 a rhagamcan o £6 miliwn ar gyfer 2015-16; a
 - d chyflawni arbedion ardrethu o £1.1 miliwn.
- 76 Diwygiwyd y Cynllun ym mis Rhagfyr 2013 gyda'r bwriad o ddarparu fframwaith i hwyluso cyflawniad y rhaglen newid. Y buddion allweddol a fwriadwyd oedd lleihau'r costau referniw fwy byth, sicrhau derbyniadau cyfalaf a chyflawni ystâd gynaliadwy.
- 77 Mae'r Cyngor wedi datblygu a gweithredu Strategaeth Llety Swyddfa lwyddiannus o'r enw Gwella Eich Gofod (GEG). Bydd ail gyfnod y gweithgareddau yn canolbwyntio ar fwy o gyfleoedd ar gyfer gweithio'n hyblyg, gwerthu Cwrt y Cigfrain a symud mwy o'r staff i Swyddfeydd Dinesig.
- 78 Fel rhan o Gyfnod 2 y strategaeth lety, mae'r Cyngor yn mabwysiadu'r model o gael un prif bencadlys i'r Cyngor a thair canolfan gymunedol. Bydd y prif bencadlys yn y Swyddfeydd Dinesig yn darparu canolfan wasanaeth weladwy ar gyfer y gymuned, gan ganolbwyntio ar wasanaethau wyneb yn wyneb yn y ganolfan gyswllt i gwsmeriaid a gweithredu siop un stop ar gyfer y cyhoedd. Mae trafodaethau'n cael eu cynnal gyda Heddlu De Cymru ynghylch cyd-leoli'r Heddlu yn Swyddfeydd Dinesig Pen-y-bont ar Ogwr.
- 79 Bydd tair canolfan gymunedol, y cyfeirir atynt fel Canolfannau Diogelu Amlasiantaeth, yn cael eu sefydlu, sy'n cysylltu Iechyd, Gofal Cymdeithasol, Ysgolion a'r Heddlu. Bydd un yng Ngogledd, Dwyrain a Gorllewin y Fwrdeistref Sirol a gefnogir gan gyfleusterau mewn llyfrgelloedd, ysgolion a chlinigau iechyd, gyda'r bwriad o gysylltu pob gwasanaeth yn y sector cyhoeddus er mwyn darparu dull mwy cydlynol o gyflenwi'r gwasanaethau cyhoeddus hynny sydd eu hangen ar y gymuned yn y gymuned.
- 80 Ystyrir lleoliad canolog staff hefyd fel elfen sy'n cyfrannu at adfywio canol y dref, er enghraifft, trwy gynyddu nifer yr ymwelwyr o bosibl, yn ogystal ag ailddatblygu Rhiw a deiliadaeth newydd yn Llys y Cigfrain.

- 81 Mae meysydd gweithredu allweddol eraill sy'n gysylltiedig â'r rhaglen newid strategol yn cynnwys y canlynol:
- a Mae'r Cyngor yn ceisio ymdrechu i fynd ati i Drosglwyddo Asedau Cymunedol (TAC) mewn modd mwy rhagweithiol a strategol. Bydd hyn yn cael ei gefnogi trwy recriwtio swyddog TAC a fydd yn ymddwyn fel pwynt cyswllt allweddol ar gyfer cymunedau.
 - b Cynhyrchu £11 miliwn o dderbyniadau cyfalaf i helpu i gefnogi'r rhaglen foderneiddio ysgolion er mwyn cyflawni gofyniad rhaglen Llywodraeth Cymru, sef Ysgolion yr 21ain Ganrif, i'r Cyngor ddarparu arian cyfatebol.
 - c Mae'r Rhaglen Warediadau yn honni y bydd £8.9 miliwn o dderbyniadau cyfalaf newydd yn cael eu cynhyrchu dros y ddwy flynedd nesaf, gan gynnwys derbyniadau a ddisgwyllir gan Ganolfan Preswyl Ogwr a Chanolfan Ddydd Pen-y-bont ar Ogwr, ynghyd â gwerthu safleoedd eraill dros ben o fewn y Fwrdeistref Sirol.
- 82 Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu cynlluniau i wella cyflymder ac ehangu nifer y TAC. Mae'r trosglwyddiadau wedi'u cyflawni yn unol â Chynllun Rheoli Asedau 2021, Dogfen Ganllaw'r TAC ac mewn ymateb i gais gan grŵp cymunedol neu Gyngor Tref a Chymuned.
- 83 Mae nifer o drosglwyddiadau llwyddiannus wedi cael eu cwblhau. Mae trosglwyddo asedau wedi rhoi'r cyfle i gynnal a chadw gwasanaethau cymunedol gwerthfawr. Mae'r Canllaw ar Drosglwyddo Asedau Cymunedol wedi'i ddiweddarau er mwyn sicrhau diwydrwydd priodol wrth ystyried y broses drosglwyddo ac mae swydd Swyddog TAC benodol wedi'i chreu i hwyluso'r trefniadau.

Cynnig ar gyfer Gwella

Rheoli Asedau

- C7 Sicrhau bod cynlluniau busnes gwasanaethau yn cynnwys ystyriaeth o ofynion eiddo ar gyfer y dyfodol.

Mae'r Cyngor yn cydweithio ar draws ystod eang o weithgareddau ac, er ei fod yn gallu adnabod canlyniadau gwell mewn rhai gweithgareddau, nid yw'n gallu gwerthuso effaith gweithgareddau'r Bwrdd Gwasanaeth Lleol hyd yma

- 84 Mewn rhannau cynharach o'r adroddiad hwn, rydym wedi disgrifio ystod o weithgareddau sy'n cael eu gwneud gan y Cyngor mewn cydweithrediad ag eraill. Gellir gweld diben clir ar gyfer y mwyafrif o'r rhain ac mae'r Cyngor yn gallu adolygu'r effaith sy'n cael ei chyflawni. Yn gwyno:
- a Caiff darpariaeth gwasanaethau ei chynnal trwy gydweithio â sefydliadau cyfredol neu rai sydd wedi eu creu o'r newydd er mwyn gweithredu gwasanaethau diwylliannol a darparu gwasanaethau hamdden.
 - b Mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg am flynyddoedd lawer, gan integreiddio timau staff er mwyn cynllunio a datblygu gwaith cymdeithasol, therapi a nyrsio cymunedol.
 - c Mae Gwasanaethau Rheoleiddio ar y Cyd (Iechyd yr Amgylchedd, Safonau Masnach a Thrwyddedu) yn cael eu darparu mewn partneriaeth â dau gyngor arall, yn ogystal â Chydwasaeth Archwilio Mewnol.
- 85 Mae Byrddau Gwasanaeth Lleol yn dod â phersonél allweddol ynghyd o ystod o sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau neu gymorth i bobl sy'n byw o fewn ffiniau'r awdurdod lleol. Mae BGLI Pen-y-bont ar Ogwr wedi ei sefydlu ers 2009 ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o 11 sefydliad ar hyn o bryd sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau ledled y sir.
- 86 Ym mis Ebrill 2013, ar ôl cwblhau asesiad o anghenion y sir, cyhoeddodd y BGLI 'Sir Pen-y-bont ar Ogwr Gyda'n Gilydd mis Ebrill 2013 – mis Mawrth 2018'. Roedd y cynllun pum mlynedd hwn yn gosod y canlyniadau blaenoriaethol a fwrriadwyd i ddiwallu'r anghenion ac yn disgrifio'r camau gweithredu arfaethedig. Rhoddwyd trefniadau llywodraethu ar waith gyda'r nod o sbarduno cyflawniad y cynllun ac mae adroddiadau blynyddol wedi'u cynhyrchu ar gyfer 2013-14 a 2014-15.
- 87 Ym mis Rhagfyr 2014, adolygwyd arferion llywodraethu ac arferion gweithredol gan y BGLI yn dilyn ei adolygiad ei hun o drefniadau. Canfu'r adolygiad fod gormod o weithgareddau'n cael eu holrhain a oedd yn cael eu cyflawni'n aml gan un sefydliad yn hytrach na chanolbwyntio ar weithgareddau mwy sylweddol a oedd yn gofyn am gydweithrediad partneriaid. Mae strwythur diwygiedig yn cael ei roi ar waith yn ystod 2015 i ganolbwyntio ar y gweithgareddau allweddol hynny sy'n debygol o wneud gwahaniaeth; sy'n gofyn am gydweithrediad o leiaf tri phartner, ac sy'n adlewyrchu'r adnoddau neu'r mentrau sydd ar gael i alluogi adnoddau i gael eu hailgyfeirio.
- 88 Er mwyn gwella ffocws ac effeithlonrwydd cyfarfodydd, cynhaliodd y BGLI lai o gyfarfodydd, gyda dau gyfarfod wedi'u trefnu ar gyfer 2015. Gwnaeth y Cyngor hefyd adolygu ei drefniadau craffu ac ym mis Medi 2015, diwygiodd gylch gorchwyl ei Banel Trosolwg a Chraffu BGLI er mwyn adlewyrchu'r newidiadau a wnaed

gan y BGLI. Mae adolygu'r trefniadau yn gam cadarnhaol o ran sicrhau mwy o effeithlonrwydd ar lefel lywodraethol a chyflwyno dull mwy canolbwyntiedig (ar weithgareddau allweddol sydd angen cydweithrediad). Ond pan gynhaliwyd yr asesiad, roedd gwaith ar droed i nodi'r gweithgareddau allweddol ac, o ganlyniad, nid oedd unrhyw enghreifftiau o'r canlyniadau sydd wedi ymddangos na swyddogaeth y craffu yn y trefniant.

Cynnig ar gyfer Gwella

Cydweithio

- C8 Adeiladu ar ddatblygiad cyfredol trefniadau'r Bwrdd Gwasanaeth Lleol trwy fabwysiadu mesurau i werthuso llwyddiant y gweithgareddau cydweithredol allweddol.

Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) yn gofyn i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, ac i gyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cynnwys cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Cynhyrchwyd yr adroddiad hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau dan adran 24 y Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella dan adran 18 a chan nodi a yw'n credu, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gweithredu dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio gwella dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd cyffredinol i 'wneud trefniadau er mwyn diogelu gwelliant parhaus wrth gyflawni [eu] swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i fodloni ei ddyletswyddau. Mae'r asesiad gwella'n asesiad blaengar o debygolrwydd awdurdod i gydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i ddiogelu gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i weld a yw awdurdod wedi cyflawni ei welliannau arfaethedig er mwyn llywio barn ar record yr awdurdod o ran gwella. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi ei waith archwilio ac asesu mewn Adroddiad Gwella Blynyddol ar gyfer pob awdurdod (dan adran 24).

Dan rai amgylchiadau, gallai'r Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (dan adran 21), a fydd yn cael eu hadrodd i'r awdurdod a'r Gweinidogion, ac a allai gael eu cyhoeddi (dan adran 22). Un gweithgaredd atodol pwysig i'r Archwilydd Cyffredinol yw cydlynu'r gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol gan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Fe allai'r Archwilydd Mewnol hefyd ystyried gwybodaeth a rannwyd gan reoleiddwyr perthnasol (dan adran 33) yn ei asesiadau.

Atodiad 2 – Llythyr Archwilio Blynyddol

Y Cyngorydd M E J Nott
Yr Arweinydd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Swyddfeydd Dinesig
Stryd yr Angel
Pen-y-bont ar Ogwr
CF31 4WB

Annwyl Gyngorydd Nott

Llythyr Archwilio Blynyddol – Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr 2014-15

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r prif negeseuon sy'n codi o gyfrifoldebau statudol Archwilydd Cyffredinol Cymru o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a fy nghyfrifoldebau adrodd i o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- sefydlu systemau rheoli mewnol sy'n sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad o Gyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau; a
- chyflwyno tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Ar 29 Medi 2015, rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa a thrafodion ariannol y Cyngor. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad o Gyfrifon. Nodwyd y prif faterion a oedd yn deillio o'r archwiliad o'r cyfrifon i aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn fy adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ar 25 Medi 2015.

Roedd yr adroddiad hwn yn nodi:

- nad oedd gennym unrhyw bryderon ynglŷn ag agweddau ansoddol eich arferion cyfrifyddu a'ch modd o gyflwyno adroddiadau ariannol, ond nododd ein hadroddiad wahaniaeth sylweddol yn y symudiad yng ngwerth teg portffolio eiddo'r Cyngor rhwng y prisiad diweddaraf y seiliwyd y gwerth cario gwreiddiol arno a'r gwerth teg ar ddiwedd y flwyddyn yn ôl asesiad priswyr y Cyngor; addaswyd hwn a bydd angen i'r Cyngor barhau i adolygu ei ddull o werthuso portffolio eiddo'r Cyngor er mwyn gallu sicrhau a dangos nad yw gwerth cario'r asedau yn sylweddol wahanol i'r gwerth teg ar ddiwedd y flwyddyn;
- ni chawsom unrhyw anawsterau sylweddol yn ystod yr archwiliad; ac
- ni fu trafodaeth na gohebiaeth ynglŷn ag unrhyw faterion o bwys gyda'r rheolwyr yr oedd angen i ni adrodd arnynt.

Mae swyddogion wedi cytuno ar gamau i ymdrin â mater y portffolio eiddo yn y blynyddoedd i ddod.

Rwyf yn fodlon bod y Cyngor wedi sefydlu trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac rwyf hefyd wedi dibynnu ar y gwaith a wnaed yn rhan o'r Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Bydd fy Adroddiad Gwella Blynyddol yn tynnu sylw at y meysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi'i brofi eto neu lle y gellid gwneud gwelliannau.

Cyflwynais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 29 Medi 2015.

Nid yw'r gwaith a wnaed gennyf hyd yma ar ardystio hawliadau a ffurflenni grant wedi nodi materion sylweddol a fyddai'n effeithio ar gyfrifon 2015-16 na systemau ariannol allweddol.

Bydd adroddiad manylach ar fy ngwaith ardystio grantiau yn dilyn yn 2016 pan fydd rhaglen gwaith ardystio eleni wedi'i chwblhau.

£201,430 yw'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2014-15, sydd £5,730 yn uwch na'r ffi y cytunwyd arni a nodir yn yr Amlinelliad o'r Archwiliad Blynyddol, o ganlyniad i waith ychwanegol a wnaed ynglŷn â'r mater prisio a amlinellwyd uchod a gwaith a wnaed ar gwestiwn a godwyd gan Aelod Cynulliad.

Yn gywir

Darren Gilbert, KPMG LLP
Dros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru